COP43

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Office of the Public Guardian

Arweiniad i Ddirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod

www.publicguardian.gov.uk

Cynnwys

Rhan A	Cyflwyniad	7
	Am y llyfryn hwn	7
	Deddf Galluedd Meddyliol 2005	8
	Pum egwyddor statudol y Ddeddf	8
	Y Cod Ymarfer	9
	Y Llys Gwarchod	9
	Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd	10
Rhan B	Beth sy'n digwydd pan ddof yn Ddirprwy?	11
	Beth yw fy mhwerau, fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau fel Dirprwy?	11
	Beth ddylwn i ei wneud gyda'r gorchymyn Llys?	12
Rhan C	Gwneud penderfyniadau fel Dirprwy	13
	Pa benderfyniadau y dylwn eu gwneud a phryd y dylwn eu gwneud?	13
	Sut rwy'n asesu galluedd rhywun i wneud penderfyniad?	13
	Sut rwy'n penderfynu beth sydd er lles rhywun?	14
	Pryd bydd angen y gwasanaeth Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol?	16
	Beth os bydd gennyf fuddiannau sy'n gwrthdaro?	16

Rhan Ch	Pryd i beidio â gwneud penderfyniadau	17
	Beth os nad yw'r penderfyniad rwyf eisiau ei wneud yn y gorchymyn Llys?	17
	A oes unrhyw gyfyngiadau ar fy mhwerau fel Dirprwy?	17
Rhan D	Materion cyfreithiol	18
	Sut y caiff person sydd â diffyg galluedd ei amddiffyn rhag colled ariannol?	18
	Sut y caiff person sydd â diffyg galluedd ei amddiffyn rhag camdriniaeth?	18
	A wyf yn cael fy amddiffyn rhag atebolrwydd fel Dirprwy?	19
Rhan Dd	A fyddaf i'n derbyn cymorth a goruchwyliaeth fel Dirprwy?	20
	Beth mae Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd yn ei wneud ar gyfer Ddirprwyon?	20
	A oes ffioedd yn daladwy am yr oruchwyliaeth?	21
	A gaf i gyflogi gweithwyr proffesiynol i'm helpu?	21
	A gaiff fy nhreuliau eu had-dalu imi?	21
Rhan E	Pryd mae pwerau Dirprwy'n dod i ben?	23
	Mae'r person sydd â diffyg galluedd yn gwella	23
	Mae'r gorchymyn yn dod i ben	23
	Mae'r person sydd â diffyg galluedd yn marw	23
	Mae'r Dirprwy'n marw	24
	Mae'r Dirprwy'n ymddeol	24
	Mae'r Llys yn rhyddhau'r Dirprwy	24

Rhan F	Cysylltwch â ni	25

Rhan Ff	Geirfa	26

Rhan A: Cyflwyniad

Am y llyfryn hwn

Mae'r llyfryn hwn yn darparu arweiniad i bobl sydd wedi cael eu penodi gan y Llys Gwarchod i swydd Dirprwy. Mae'n darparu trosolwg o'ch dyletswyddau a'r canlyniadau o beidio â'u cyflawni mewn modd cyfrifol.

Fel Dirprwy rydych chi'n gyfrifol yn gyfreithlon am weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran person sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniadau drosto ei hun.

Pan fyddwch chi'n gwneud penderfyniadau cymhleth neu anodd yn ymwneud â chyllid, eiddo, triniaeth feddygol sylweddol, gofal cymdeithasol neu les personol (er enghraifft pan fo rhaid i berson symud tŷ neu fynd i mewn i ofal) rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol a/neu gyngor proffesiynol arall.

Ceir esboniad o eiriau ac ymadroddion pwysig sy'n cael eu defnyddio yn y ddogfen hon yn Rhan Ff: Geirfa. Mae'r holl gyhoeddiadau a grybwyllir ar gael i'w llwytho i lawr o'n gwefan - gweler manylion cysylltu yn Rhan f.

Mae'r llyfryn hwn ar gael hefyd mewn fformat 'hawdd i'w darllen'.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y 'Ddeddf') yn rhoi grym i bobl i wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain mor bell ag y bo modd. Mae'n amddiffyn pobl agored i niwed y mae'n bosibl nad oes ganddynt y galluedd i wneud eu penderfyniadau i gyd eu hunain am resymau gan gynnwys demensia, anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, strôc neu anafiadau i'r pen.

Mae'r Ddeddf yn nodi pwy sy'n gallu gwneud penderfyniadau ym mha sefyllfaoedd a'r egwyddorion y mae'n rhaid iddyn nhw eu dilyn wrth wneud hynny. Mae'n galluogi pobl i gynllunio o flaen llaw am adeg pan fo'n bosibl na fydd ganddynt alluedd.

Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda neu'n gofalu am oedolion sydd â diffyg galluedd gydymffurfio â'r Ddeddf.

Pum egwyddor statudol y Ddeddf

Mae pum egwyddor statudol, sy'n darparu meincnod i benderfynwyr a gofalwyr yn sylfaen i'r Ddeddf.

1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun ac mae'n rhaid cymryd bod ganddo alluedd oni phrofir i'r gwrthwyneb.
2. Mae'n rhaid rhoi'r holl help priodol i bobl cyn y gellir ystyried eu bod yn analluog i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
3. Mae gan unigolion yr hawl i wneud penderfyniadau annoeth, gan gynnwys penderfyniadau a all fod yn ecsentrig ym marn pobl eraill.

4. Mae'n rhaid bod unrhyw beth a wneir ar ran person sydd â diffyg galluedd er ei 'les' - gweler tudalen 14.
5. Dylai unrhyw beth a wneir ar ran person sydd â diffyg galluedd fod y lleiaf cyfyngol ar ei hawliau ac iawnderau sylfaenol.

Y Cod Ymarfer

Mae'r Cod Ymarfer (y 'Cod') yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i bawb y mae'r Ddeddf yn effeithio arno, ac yn esbonio sut mae'r Ddeddf yn gweithio'n ymarferol. Mae'n disgrifio cyfrifoldebau'r rhai sy'n gweithio gyda ac yn gofalu am oedolion sydd â diffyg galluedd, gan gynnwys aelodau o'r teulu, gweithwyr proffesiynol a gofalyddion.

Fel Dirprwy mae'n rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r Cod a'i ystyried. Os byddwch yn rhan o achos Llys sifil neu droseddol ac mae'n ymddangos nad ydych wedi cydymffurfio â'r Cod, cymerir y methiant hwn i ystyriaeth wrth benderfynu ar yr achos.

Gallwch lwytho'r Cod i lawr o'n gwefan neu gallwch ei brynu oddi wrth y Llyfrfa (020 7873 8272 neu www.tso.co.uk).

Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod yn gwneud penderfyniadau ac yn penodi Dirprwyon i wneud penderfyniadau er lles y rhai sydd â diffyg galluedd.

Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd

O dan y Ddeddf mae Gwarcheidwad y Cyhoedd (gyda chymorth Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd) yn gyfrifol am:

- goruchwylio Dirprwyon a benodwyd gan y Llys;
- Cadw cofrestrau o Ddirprwyon, o Atwrneiaethau Arhosol (AA) a Atwrneiaeth Barhaus (AB);
- ymchwilio i gwynion am Ddirprwyon ac Atwrneiaethau yn gweithredu o dan AB neu AA gofrestredig.

Rhan B Beth sy'n digwydd pan ddof yn Ddirprwy?

Beth yw fy mhwerau, fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau fel Dirprwy?

Mae'r gorchymyn Dirprwyo a dderbyniwch pan gewch eich penodi yn nodi eich pwerau penodol mewn perthynas â'r person sydd â diffyg galluedd. Bydd y pwerau'n dibynnu ar anghenion y person ac yn y pen draw ar benderfyniad y Llys.

Efallai y bydd eich pwerau'n berthnasol i unrhyw agwedd ar fywyd person, gan gynnwys ei gyllid, ei les personol a chydsynio i driniaeth feddygol ac ymyraethau gofal cymdeithasol.

Mae'r ddogfen **COP4: Datganid gan Ddirprwy** yn nodi prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau Dirprwyon. Gallwch ei llwytho i lawr o'n gwefan neu ffoniwch ni am gopi caled.

Gall y penderfyniadau a wnewch chi fel Dirprwy gael effaith fawr ar y person sydd â diffyg galluedd. Dylech chi gyflawni eich cyfrifoldebau mewn modd sensitif, cyfrifol a chadarn, a dylech bob amser:

- gwneud penderfyniadau er lles y person;
- Dim ond gwneud y penderfyniadau hynny a awdurdodir gan y gorchymyn Llys;
- ystyried yr holl ganllawiau perthnasol yn y Cod;
- cadw at bum egwyddor statudol y Ddeddf;
- cymhwyso safon uchel o ofal wrth wneud penderfyniadau.

Mae Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd yn disgwyl y byddwch yn rhoi gwybod iddi am unrhyw newidiadau yn eich manylion cysylltu neu fanylion cysylltu'r person y penodwyd chi yn Ddirprwy drosto.

Mae Pennod 8 y Cod yn darparu rhagor o fanylion am swyddogaeth Dirprwyon a benodwyd gan Lys.

Beth ddylwn i ei wneud gyda'r gorchymyn Llys?

Ar ôl gwneud y gorchymyn byddwch yn derbyn nifer o gopïau wedi'u hardystio o'r ddogfen. Dylech wirio'n ofalus am wallau, gan gynnwys gwallau sillafu. Os bydd gwallau, anfonwch y copïau yn ôl i'r Llys iddynt gael eu diwygio.

Rhoddir nifer o gopïau i chi fel y byddwch yn gallu darparu copi, os oes angen hynny, i bobl neu gyrff i brofi bod gennych awdurdod i wneud rhai penderfyniadau ar ran y person sydd â diffyg galluedd.

Efallai yr hoffech ddarparu copi o'r gorchymyn i rai pobl a chyrff o flaen llaw fel y byddan nhw'n cysylltu â chi pan fo angen gwneud penderfyniadau.

Rhan C Gwneud penderfyniadau fel Dirprwy

Pa benderfyniadau y dylwn eu gwneud a phryd dylwn i eu gwneud?

Bydd eich gweithrediadau a'ch penderfyniadau fel Dirprwy yn dibynnu ar yr hyn y mae'r llys wedi'i ddweud y dylech chi ei wneud yn y gorchymyn yn eich penodi.

Cyn i chi wneud penderfyniad mae'n bwysig eich bod yn ystyried a allai'r person wneud y penderfyniad hwnnw drosto ei hunan gyda pheth cymorth neu o dan rai amgylchiadau.

Dylech ystyried y canlynol:

- a oes adegau penodol yn ystod y dydd neu leoliadau sy'n gwneud i'r person deimlo'n fwy ymlaciedig ac yn fwy galluog i wneud penderfyniadau;
- a ellir trosglwyddo'r wybodaeth mewn ffordd fwy dealladwy, er enghraifft drwy ddefnyddio lluniau, ffotograffau, sain, fideo neu iaith arwyddo;
- a roddwyd yr holl ddewisiadau i'r person;
- a oes unrhyw un arall fel perthynas neu ffrind fyddai'n gallu cynorthwyo neu helpu'r person i wneud penderfyniad neu i fynegi barn.

Sut rwy'n asesu galluedd rhywun i wneud penderfyniad?

Does dim disgwyl i chi fod yn arbenigwr wrth asesu galluedd, fodd bynnag pan fyddwch yn gwneud penderfyniad ar ran rhywun arall mae'n rhaid eich bod yn credu'n rhesymol fod person hwnnw â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw neu i roi caniatâd ar yr adeg pan oedd ei angen.

Bydd y camau a gymerir gennych i benderfynu nad oes gan berson alluedd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos a ffactorau eraill megis pa mor daer yw'r penderfyniad.

Nid oes rhaid i chi, o reidrwydd, ddilyn prosesau ffurfiol fel ceisio barn broffesiynol i wneud asesiad, ond os bydd rhywun yn herio eich asesiad mae'n rhaid eich bod yn gallu disgrifio eich rhesymau a pham rydych chi'n credu fod y person â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad dan sylw.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am asesu galluedd ym mhenodau 2, 3 a 4 y Cod.

Sut rwy'n penderfynu beth sydd er lles rhywun?

Mae'n rhaid bod popeth a wneir i berson sydd â diffyg galluedd, neu a wneir ar ei ran, fod er lles y person hwnnw. Mae hyn yn wir pan fo'r penderfyniad yn un dibwys, er enghraifft penderfynu beth i'w wisgo, neu'n benderfyniad mawr, er enghraifft penderfynu ar ofal iechyd neu driniaeth feddygol benodol.

Weithiau gall fod yn anodd gweithio allan beth sydd er lles rhywun, ac mae'r Ddeddf yn gofyn i chi ddilyn rhai camau i'ch helpu i wneud y penderfyniad hwnnw. Os byddwch chi'n dilyn y camau hyn ac yn gwneud popeth y gallwch chi yn rhesymol i weithio allan beth sydd er lles y person, rydych chi'n cyflawni eich rhwymedigaeth fel Dirprwy.

Dylech ystyried y canlynol:

- cynnwys y person sydd â diffyg galluedd gymaint ag sy'n bosibl mewn unrhyw weithred neu benderfyniad;
- ystyried unrhyw werthoedd, barnau, credoau, dymuniadau a theimladau a fynegwyd ganddo yn y gorffennol;
- ymgynghori ag eraill fel y teulu, ffrindiau, gofalyddion, Atwrniaethau neu Ddirprwyon eraill am eu barnau ar les y person;
- nodi unrhyw ffactorau y mae'n bosibl y byddai'r person wedi'u hystyried pe bai ganddo alluedd i wneud hynny.

Ar ôl ystyried y wybodaeth sydd gennych yna y dylech wneud eich penderfyniad am beth rydych chi'n ei feddwl yw lles y person.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â phenderfynu ar les ym Mhennod 5 y Cod.

Pryd bydd angen y gwasanaeth Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol newydd?

Mewn achosion ble:

- mae angen penderfyniad am driniaeth feddygol ddifrifol neu am symudiadau llety hirdymor;
- mae eich awdurdod yn gyfyngedig i eiddo a materion yn unig; ac
- nid oes gan y person unrhyw deulu neu ffrindiau i'w cynrychioli;

dylai'r awdurdod lleol/awdurdod iechyd benodi Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (EAGM) i wneud y penderfyniad ar ran y person sydd â diffyg galluedd.

Mae rhagor o wybodaeth am EAGMau ym mhennod 10 y Cod.

Beth os bydd gennyf fuddiannau'n gwrthdaro?

Ni ddylech chi wneud penderfyniadau mawr pan fydd eich buddion personol a'r person sydd â diffyg galluedd yn gwrthdaro. Er enghraifft os ydych chi neu aelod o'ch teulu eisiau prynu eiddo sy'n perthyn i'r person sydd â diffyg galluedd, bydd angen i chi gael penderfyniad Llys ynglŷn ag a ellir ei brynu neu beidio.

Os nad ydych yn sicr am beth y dylech chi ei wneud dylech ddilyn egwyddorion lles, ceisio cyngor cyfreithiol a/neu gysylltu â Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd fydd yn gallu eich cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth.

Rhan Ch: Pryd i beidio â gwneud penderfyniadau

Beth os nad yw'r penderfyniad rwyf eisiau ei wneud yn y gorchymyn Llys?

Os nad yw'r penderfyniad yr hoffech ei wneud er lles y person yn gynwysedig yn y gorchymyn Llys, neu os ydych yn teimlo nad yw eich pwerau'n caniatáu i chi gyflawni eich dyletswyddau'n effeithiol, gallwch wneud cais i'r Llys naill ai:

- i wneud y penderfyniad penodol sydd ei angen; neu
- i newid eich pwerau Dirprwy fel y gallwch chi wneud y penderfyniad sydd ei angen.

Mae'r llyfryn **COP42: Gwneud cais i'r Llys Gwarchod** yn esbonio sut i wneud cais i'r Llys ac mae ar gael i'w lwytho i lawr o'n gwefan.

A oes unrhyw gyfyngiadau ar fy mhwerau fel Dirprwy?

Mae nifer o gyfyngiadau ar bwerau Dirprwy. Yn benodol nid oes gan Ddirprwyon ddim hawl i wneud penderfyniad neu gymryd camau:

- os yw'n credu bod y person â galluedd i wneud y penderfyniad dan sylw drosto ei hunan;
- os oes bwriad ffrwyno'r person yn gorfforol, oni bai fod ei angen er mwyn ei ffrwyno rhag cael ei anafu ac mae'r ffrwyno'n rhesymol ac yn gymesur;
- os aiff yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Atwrnai'n gweithredu o dan Atwrneiaeth Arhosol a roddwyd gan y person cyn iddo golli ei alluedd; neu
- i wrthod darparu neu barhau â thriniaeth sy'n cynnal bywyd i berson sydd â diffyg galluedd i gydsynio. Dim ond y Llys sy'n gallu gwneud penderfyniad o'r fath.

Rhan D: Materion Cyfreithiol

Sut y caiff person sydd â diffyg galluedd ei amddiffyn rhag colled ariannol?

Os cewch eich penodi'n Ddirprwy'n gyfrifol am eiddo a materion, mae'n bosibl y bydd y Llys yn gofyn i chi ddarparu rhyw fath o ddiogelwch, er enghraifft bond gwarant, i dalu am unrhyw golled o ganlyniad i'ch ymddygiad.

Bydd y Llys yn penderfynu ar lefel y sicrwydd sydd ei angen, a fydd yn gymesur â swm y cronfeydd rydych chi'n delio â nhw.

Yn ogystal â hyn, gall y Llys ofyn i chi ddarparu adroddiadau a chyfrifon i'r SGC yn rheolaidd.

Sut y caiff person sydd â diffyg galluedd ei amddiffyn rhag camdriniaeth?

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dwy drosedd newydd: cam-drin neu'n esgeuluso'n fwriadol person sydd â diffyg galluedd. Gall y troseddau hyn fod yn gymwys i unrhyw un sy'n gofalu am berson sydd â diffyg galluedd gan gynnwys teulu, iechyd, gofal cymdeithasol, staff ysbyty neu gartref gofal, Atwrneiod neu Ddirprwyon.

Mae person yn euog o drosedd os bydd yn cam-drin neu'n esgeuluso'n fwriadol y person y mae'n gofalu amdano neu'n ei gynrychioli. Mae'r cosbau'n ymestyn o ddirwy i ddedfryd o garchar am hyd bum mlynedd, neu'r ddwy.

A wyf yn cael fy amddiffyn rhag atebolrwydd fel Dirprwy?

Os byddwch chi'n gweithredu o fewn telerau'r gorchymyn a'ch apwyntiodd fel Dirprwy, ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf a'r Cod, mae'n annhebygol y byddech yn mynd i atebolrwydd cyfreithiol.

Os ydych chi'n gweithredu y tu allan i delerau eich awdurdod neu os nad ydych chi'n cyflawni eich cyfrifoldebau'n gywir cewch eich dal yn gyfrifol am eich gweithredoedd. Er enghraifft os byddwch yn methu â hawlio budd-daliadau y mae gan y person hawl iddynt neu'n gwario arian ar wahân i'ch buddion, bydd y Llys o'r farn eich bod wedi achosi colled ariannol i'r person. O dan yr amgylchiadau hyn gall y Llys benderfynu gorfodi'r bond gwarant neu awdurdodi rhywun i ddod ag achos yn eich erbyn.

Os ewch i drafodyn gyda thrydydd parti ar ran y person sydd â diffyg galluedd, er enghraifft os byddwch yn hurio gweithiwr i atgyweirio ei dy ef, nid ydych chi'n atebol yn bersonol am daliad. Ystyrir mai asiant ydych a'r person yw'r Pennaeth sy'n atebol am dalu.

Rhan Dd: A fyddaf i'n derbyn cymorth a goruchwyliaeth fel Dirprwy?

Beth mae Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd yn ei wneud ar gyfer Ddirprwyon?

Mae'r SGC yn gyfrifol am sicrhau bod Dirprwyon yn gweithredu er lles y person sydd â diffyg gallu ac am ddilyn gorchmynion/cyfarwyddiadau'r Llys.

Penderfynir ar lefel y cymorth a'r oruchwyliaeth a ddyrennir gan yr SGC ar ôl cynnal asesiad o amgylchiadau unigol yr achos, yn seiliedig ar y canlynol:

- cymhlethdod materion ariannol y person sydd â diffyg galluedd;
- mathau o benderfyniadau y mae angen eu gwneud;
- gofynion gofal y person sydd â diffyg galluedd; a'r
- gydberthynas rhwng y Dirprwy a'r person sydd â diffyg galluedd;

Mae tair lefel o urchwyliaeth: Mae achosion math 1 yn cynnwys lefel uchel o oruchwyliaeth, mae achosion Math 2 yn cynnwys lefel isel o oruchwyliaeth ac ar gyfer achosion Math 3 fel arfer byddwn yn cau ein ffeil ar ôl cyhoeddi'r gorchymyn Llys.

Gall goruchwylio olygu'r canlynol:

- y bydd yr SGC yn darparu cymorth parhaus i chi wrth i chi gyflawni eich swyddogaeth;
- y byddwch yn cyflwyno adroddiadau i'r SGC pan fydd y Llys yn eich cyfarwyddo i wneud hynny; ac
- y bydd Ymwelydd Llys yn gwirio sut mae'r Ddirprwyaeth yn cael ei rhedeg.

Caiff lefel y cymorth a'r oruchwyliaeth y byddwch yn ei derbyn ei hasesu'n rheolaidd er mwyn gweld a yw'n berthnasol o hyd i'ch amgylchiadau.

Mae arweiniad ar wahân am oruchwylio Dirprwyon ar gael i'w lwytho i lawr o'u gwefan neu gallwch ein ffonio i gael copi caled.

A oes ffioedd yn daladwy am yr oruchwyliaeth?

Oes, mae ffioedd goruchwylio ar gyfer goruchwyliaeth SGC yn statudol, sy'n golygu bod y Senedd yn eu gosod. Maen nhw'n seiliedig ar gost darparu gwasanaethau cymorth i'r Dirprwy ac i'r person sydd â diffyg galluedd. Mae ffioedd goruchwylio yn daladwy o gronfeydd y person sydd â diffyg gallu.

Am ragor o wybodaeth, gallwch lwytho i lawr y llyfryn **OPG506: Ffioedd, esemptiadau a dileadau** o'n gwefan.

A gaf i gyflogi gweithwyr proffesiynol i'm helpu?

Cewch gyflogi gweithwyr proffesiynol fel cyfreithwyr, cyfrifwyr ac ymgynghorwyr ariannol rheoleiddiedig i'ch cynorthwyo i gyflawni eich swyddogaeth fel Dirprwy. Mae ffioedd yn daladwy o gronfeydd y person sydd â diffyg galluedd.

Fodd bynnag, ni chaniateir i chi ddirprwyo eich cyfrifoldebau i berson arall. Er enghraifft gallwch gael cyngor am werthu eiddo neu lenwi ffurflen cyfrif flynyddol neu ffurflen dreth flynyddol; fodd bynnag ni fyddai'n briodol cyflogi cyfreithiwr dim ond i gyflawni eich cyfrifoldeb i dalu ffioedd i gartref nyrsio.

A gaiff fy nhreuliau eu had-dalu imi?

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i chi gael eich ad-dalu am dreuliau rhesymol a gafwyd wrth weithredu fel Dirprwy. Mae enghreifftiau o dreuliau'n cynnwys galwadau ffôn, teithio a chostau postio.

Nid yw treuliau'n daladwy am yr amser a dreuliwyd gennych yn gweithredu fel Dirprwy – tâl yw hwn ac ni ellir hawlio amdano ond pan fydd gorchymyn Llys yn ei nodi'n benodol. Os ydych chi am dderbyn tâl dylech ofyn yn eich cais cychwynnol i'r Llys ystyried hyn.

Bydd y treuliau y mae gennych hawl i'w hawlio a'r hyn a ystyrier yn rhesymol yn amrywio yn ôl amgylchiadau pob achos. Mae'n dibynnu ar yr hyn mae gofyn i chi ei wneud a hefyd ar werth ystâd y person sydd â diffyg galluedd.

Mae'r SGC yn disgwyl y byddwch yn hawlio treuliau rhesymol a dilys yn unig. Os byddwch yn hawlio mwy na £500 mewn treuliau y flwyddyn gall yr SGC ofyn i chi esbonio eich treuliau'n fanwl ac yn fynych.

Os ystyrir bod eich treuliau'n afresymol mae'n bosibl y gofynnir i chi eu had-dalu, ac mewn achosion eithafol gall yr SGC wneud cais yn gofyn i'r Llys ganslo eich penodiad.

Rhan E: Pryd mae pwerau Dirprwy'n dod i ben?

Gall pwerau Dirprwy ddod i ben o dan sawl amgylchiad.

Maen nhw'n cynnwys:

Mae'r person sydd â diffyg galluedd yn gwella

Os yw'r person yn gwella'n ddigonol i wneud ei benderfyniadau ei hun, bydd y gorchymyn Dirprwy'n aros mewn grym oni bai ei fod yn dod i ben neu'n cael ei ddiddymu gan orchymyn Llys arall.

Mae'r gorchymyn yn dod i ben

Pan fydd y gorchymyn Llys yn dod i ben mae'n mynd yn annilys. Os oes angen gwneud penderfyniadau ar ran y person sydd â diffyg galluedd ar ôl y dyddiad hwn yna mae'n rhaid i chi neu rywun arall wneud cais am orchymyn newydd.

Mae'r person sydd â diffyg galluedd yn marw

Os bydd hyn yn digwydd, mae eich rôl fel Dirprwy'n dod i ben. Dylech chi roi gwybod inni ar unwaith a dweud wrthym pwy yw cynrychiolydd cyfreithiol y person fel y gallwn ni ddod â'n rhan i ben.

Os gwnaethoch sefydlu bond sicrwydd am weithredu fel Dirprwy bydd yn aros mewn grym am saith mlynedd, fodd bynnag ni fydd rhaid i chi dalu rhagor o bremiymau. Os oes cronfeydd a ddelir yn Swyddfa Cronfeydd y Llys, mae'n rhaid i'r cynrychiolwyr cyfreithiol gysylltu â Swyddfa Cronfeydd y Llys yn uniongyrchol.

Mae'r Dirprwy'n marw

Os byddwch yn marw yn ystod eich cyfnod fel Dirprwy, dylai eich cynrychiolwyr cyfreithiol roi gwybod inni ar unwaith. Dylech sicrhau eich bod wedi gwneud y trefniadau hyn o flaen llaw, ac efallai y byddwn yn gofyn i chi wneud cyfrif terfynol o'ch cysylltiadau a thrafodion fel Dirprwy.

Mae'r Dirprwy'n ymddeol

Os nad ydych yn gallu neu nid ydych yn dymuno parhau fel Dirprwy dylech wneud cais i'r Llys am i'ch gorchymyn gael ei ddiddymu. Bydd angen wedyn i rywun arall wneud cais i gael ei benodi os oes angen Dirprwy o hyd.

Mae'r Llys yn rhyddhau'r Dirprwy

Mae rhesymau gwahanol pam y gallai'r llys wneud gorchymyn i ddod â'ch rôl fel Dirprwy i ben. Efallai mai chi fydd wedi gofyn am hyn neu efallai bod gan y Llys reswm i gredu nad ydych wedi bod yn cyflawni eich dyletswyddau'n gywir neu nad ydych wedi gweithredu er lles y person.

Rhan F – Cysylltwch â ni

Cysylltwch â ni

Y Llys Gwarchod a Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd
Archway Tower
2 Junction Road
Llundain N195SZ

Rhif Ffôn: 0845 330 2900
Rhif Ffacs: 020 7664 7705
E-bost: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk
Gwefan: www.publicguardian.gov.uk
OX: 141150 Archway 2
Ffôn testun: 020 7664 7755 (Os oes gennych unrhyw anawsterau gyda'r lleferydd neu gyda'r clyw ac mae gennych fynediad at ffôn testun, gallwch ein ffonio am gymorth.)

Galwadau Rhyngwladol: +44 20 7664 7000

Ffacsys Rhyngwladol: +44 20 7664 7705

Ymwadiad

Mae'r SGC a staff y Llys yn gallu darparu cyngor am yr SGC a phrosesau'r llys yn unig, ac ni all ddarparu cyngor neu wasanaethau cyfreithiol. Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol ble bo'n briodol. Credir bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei hargraffu, fodd bynnag nid ydym yn derbyn atebolrwydd am unrhyw wall a all fod ynddo.

Rhan Ff - Geirfa

Atwrnai	Rhywun a benodir o dan Atwrneiaeth Arhosol (AA) neu Atwrneiaeth Barhaus (AB) sydd â'r hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran y person (y Rhoddwr) a wnaeth yr Atwrneiaeth.
Atwrneiaeth Arhosol (AA)	Atwrneiaeth a grëwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol (o dan Adran 9(1)) yn penodi Atwrnai i wneud penderfyniadau am les personol y Rhoddwr (gan gynnwys gofal iechyd) neu ddelio ag eiddo a materion y Rhoddwr.
Atwrneiaeth Barhaus (AB)	Atwrneiaeth a grëwyd o dan Ddeddf Atwrneiaethau Parhaus 1985 yn penodi Atwrnai i ddelio ag eiddo a materion ariannol y Rhoddwr. Bydd ABau presennol yn parhau i weithredu o dan Atodlen 4 y Ddeddf Galluedd Meddyliol, sy'n disodli Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985.
Cod Ymarfer	Mae'r Cod Ymarfer yn arweiniad ymarferol i gefnogi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol Mae'n esbonio sut y bydd y Ddeddf yn gweithredu o ddydd i ddydd ac yn cynnig enghreifftiau o arferion gorau i ofalwyr ac ymarferwyr.
Dirprwy	Rhywun a benodwyd gan y Llys gydag awdurdod parhaus fel y nodwyd gan y Llys i wneud penderfyniadau ar ran person sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol fel y nodir hwy yn Adran 16(2) y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Eiddo a materion ariannol	Unrhyw eiddo y mae rhywun yn berchen arno (fel tŷ neu fflat, gemwaith neu eiddo arall), yr arian sydd ganddynt mewn incwm, cynilon neu fuddsoddiadau ac unrhyw wariant. Gellir penodi Atwrneiod a Dirprwyon i wneud penderfyniadau am eiddo a materion ariannol ar ran person sydd â diffyg galluedd.
Er Lles	Mae'n rhaid bod unrhyw benderfyniad a wneir ar ran neu i berson sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol fod er lles y person hwnnw. Mae safonau gofynnol i'w dilyn wrth weithio allan beth sydd er lles rhywun. Mae adran 4 y Ddeddf Diffyg Galluedd yn nodi'r rhain. Gweler hefyd bennod 5 y Cod Ymarfer.
Galluedd	Mae galluedd person (neu ddiffyg galluedd) yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg pan mae angen ei wneud.
Galluedd Meddyliol	Gweler 'Galluedd'.

Gwarcheidwad y Cyhoedd	Gweler 'Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd'.
Lles personol	Penderfyniadau lles personol yw unrhyw benderfyniadau am ofal iechyd person, ble mae'n byw, pa ddillad mae'n eu gwisgo, beth mae'n ei fwyta ac unrhyw beth sydd ei angen ar gyfer ei ofal cyffredinol a'i les. Gellir penodi Atwrneiaethau a Dirprwyon i wneud penderfyniadau am les personol ar ran y person sydd â diffyg galluedd. Mae llawer o weithgareddau gofal yn ymwneud â lles personol.
Llys Gwarchod	Y Llys arbenigol am faterion yn ymwneud â phobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol.
Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd	Mae Gwarcheidwad y Cyhoedd yn swyddog a sefydlwyd o dan Adran 57 y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Caiff Gwarcheidwad y Cyhoedd ei gefnogir gan Swyddfa Gwarcheidwad y Cyhoedd, fydd yn goruchwylio Dirprwyon, yn cadw cofrestr o Ddirprwyon, AAau ac ABau, ac yn ymchwilio i gwynion am Atwrneiaethau neu Ddirprwyon. Mae'r SGC yn disodli'r Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus (SGG) sy'n bodoli ers 2001.

Court of Protection

COP43 – Arweiniad i Ddirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod (10.07)
© Hawlfraint y Goron 2007